Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol

Proposed Additional Learning Needs Legislative Competence Order Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

25 Gorffennaf 2007

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) 2007

Sefydlwyd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol ar 4 Gorffennaf 2007 i ystyried Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) 2007 ac i gyflwyno adroddiad arno. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i graffu ar:

- Egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, h.y. bod gan y Cynulliad hawl i ddeddfu yn unol â'r hyn a geir yn *'Mater 5.17'*.

- A yw'r Gorchymyn arfaethedig yn creu fframwaith priodol er mwyn gweithredu'r agenda bolisi ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan ystyried yn arbennig a yw'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddrafftio mewn ffordd sy'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

Swyddogaeth y Pwyllgor yw craffu ar y ffordd y mae'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddrafftio. Felly, ni fydd y Pwyllgor yn cynnal trafodaethau manwl am Fesurau arfaethedig y byddai modd eu gwneud ar ôl i'r Cynulliad gael hawl i ddeddfu yn y maes, yn adolygu'r polisïau presennol nac yn dyblygu gwaith a wnaed gan bwyllgorau pwnc blaenorol.

I weld y Gorchymyn arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol ac i gael rhagor o wybodaeth am y broses ddeddfu, ewch i http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/buslegislation.htm

Mae trawsgrifiad o gyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-aln-home/bus-committees-third-aln-agendas.htm?act=dis&id=55161&ds=7/2007

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i dderbyn tystiolaeth am y materion a ganlyn:

Ffôn / Tel: GTN:029 2089 8025 1208
Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice @wales.gsi.gov.uk

1. A fyddai'r Gorchymyn arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn caniatáu i'r agenda bolisi ym maes anghenion dysgu ychwanegol gael ei gweithredu drwy gyfrwng Mesurau? Os na fyddai'n caniatáu i hynny ddigwydd, rhowch resymau dros hynny ac eglurwch sut y dylid ailddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig.

2. A yw'n briodol bod y Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol i bawb? Os nad yw'n briodol, rhowch resymau dros hynny ac eglurwch sut y dylid ailddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig.

3. A yw'r diffiniad o anabledd yn y Gorchymyn arfaethedig yn briodol? Os nad yw'n briodol, rhowch resymau dros hynny ac eglurwch sut y dylid ailddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig.

4. A yw'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddrafftio mewn ffordd sy'n briodol, yn rhy gyfyng neu'n rhy eang? Os oes angen ailddrafftio'r Gorchymyn, rhowch resymau dros hynny ac eglurwch sut y dylid gwneud hynny.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon copi drwy'r e-bost at legislationoffice@wales.gsi.gov.uk. Rhowch y teitl a ganlyn i'ch e-bost: *Ymgynghoriad ar y Gorchymyn ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol.* Fel arall, gallwch anfon copi ar ddisg neu gopi caled at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai'r dystiolaeth ddod i law erbyn dydd Gwener 21 Medi 2007. Byddwn yn cadarnhau bod eich tystiolaeth wedi'n cyrraedd. Efallai na fydd modd i'r Pwyllgor ystyried ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

Pan fyddwch yn paratoi'ch tystiolaeth, cofiwch y pwyntiau a ganlyn:

- Dylai'ch ymateb fod mor gryno â phosib. Defnyddiwch y teitl uchod fel cyfeirnod.
- Fel rheol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ac mae'n bosib y cânt eu trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych yn fodlon i ni gyhoeddi'ch ymateb neu'ch enw, rhaid i chi nodi hyn ar ddiwedd eich tystiolaeth.**
- Dylech nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.
- Dylech hefyd nodi a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn pwyso a mesur yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr hydref.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Clercod, Gareth Williams (ffôn: 029 2089 8008) a Liz Wilkinson (ffôn: 029 2089 8025), neu'r Dirprwy Glerc, Ruth Hatton (ffôn: 029 2089 8019).

Eleanor Burnham AC
Cadeirydd

Ffôn / Tel: GTN:029 2089 8025 1208
Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice @wales.gsi.gov.uk